* PARTY MANIFFESTO ETHOLIAD SENEDD CYMRU 2021

CIEEM

Mae'n sicr mai pandemig parhaus COVID-19 a'r adferiad cymdeithasol ac economaidd dilynol fydd ffocws yr holl bleidiau gwleidyddol yn ystod proses etholiadol Senedd Cymru sydd ar y gorwel. Er bod hwn wedi bod yn gyfnod anodd i lawer o bobl, rydym yn credu bod mabwysiadu 'adferiad gwyrdd' hefyd yn gyfle gwych i Gymru ddod allan o bandemig COVID-19 mewn ffordd sy'n ailadeiladu'r economi ac yn cefnogi swyddi a chymunedau, gan hefyd roi sylw i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mae amgylchedd naturiol iach a gwasanaethau ecosystemau cadarn yn sail i economi gref, yn ogystal â darparu manteision iechyd a lles cadarnhaol i gymdeithas. Gyda'i gilydd maent yn darparu aer glân, dŵr ffres, priddoedd iach ar gyfer tyfu bwyd, dal a storio carbon, bywyd morol a stociau pysgod helaeth, moroedd a thraethau heb lygredd, a chyfleoedd hamdden ac ymlacio.

Felly mae'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a'r Amgylchedd (CIEEM), corff proffesiynol y DU ar gyfer mwy na 6,000 o ecolegwyr a rheolwyr amgylcheddol, yn gofyn i'r blaid *lafur/ Democratiaid Rhyddfrydol/Plaid Cymru/Ceidwadwyr/UKIP* gynnwys ymrwymiad yn eu maniffesto etholiadol sy'n sicrhau bod adferiad COVID-19 yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n rhoi sylw i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth ar yr un pryd.

I'r perwyl hwnnw, hoffem weld y pwyntiau allweddol canlynol yn cael eu cynnwys yn y maniffesto:

- Ymrwymiad i'r **argyfwng bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd yn cael lle blaenllaw** wrth wneud penderfyniadau. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i gael ei hymgorffori yng ngwaith Gweinidogion, er mwyn cefnogi lleihau carbon ar lefel genedlaethol a lleol a chyflawni pob un o'r saith nod llesiant – gyda thri ohonynt yn cyfeirio'n benodol at newid yn yr hinsawdd.

- Ymrwymiad i **fuddsoddi mewn atebion sy'n seiliedig ar natur a chyfalaf naturiol,** gan gynnwys cefnogi amaethyddiaeth sy'n ystyriol o'r hinsawdd a bywyd gwyllt ac adfer cynefinoedd sy'n gyfoethog o ran carbon fel glaswelltiroedd, mawndiroedd a choetiroedd cymysg brodorol.

- Gwell buddsoddi mewn diogelu natur ac **adfer cynefinoedd unigryw** (gan gynnwys sinciau carbon pwysig fel corsydd mawn), ynghyd â chyflwyno targedau a deddfwriaeth newydd rymus i ddiogelu'r cynefinoedd hyn.

- Ymrwymiad i **gyflawni'r gwaith o weithredu uchelgeisiau Datganiadau Ardal** o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016 a sicrhau bod y rhain yn cael cyllid priodol ar lefel leol fel eu bod yn gallu gwella cadwraeth natur yn y tymor byr a'r tymor hir.

- Parhau i weithredu Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) addas i'r diben sy'n **sefydlu Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd**. Dylai hyn wobrwyo ffermwyr am nwyddau cyhoeddus nad ydynt ar y farchnad, fel bioamrywiaeth, ansawdd aer a dŵr, priddoedd iach, atal a lliniaru llifogydd, a mynediad i fyd natur. Dylai hefyd gynnwys

ymrwymiad i wobrwyo ffermwyr am leihau'r defnydd o blaladdwyr yn unol â dull agroecolegol o weithredu wrth ffermio.

- Cefnogi galwadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am **ddatblygu pecyn ysgogi economaidd sy'n arwain at greu swyddi gwyrdd** ac sy'n cefnogi datblygu sgiliau, gan sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl yn y newid i dechnolegau gwyrddach.

- Sicrhau bod deddfwriaeth a pholisi amgylcheddol yn **seiliedig bob amser ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael**. Mae'r DU yn arwain y byd ym maes ymchwil ac arfer amgylcheddol, ac mae'n hanfodol bod Senedd Cymru yn defnyddio'r arbenigwyr hyn.

- **Cefnogi adnoddau ac arbenigedd digonol ar gyfer gwaith ecolegol** mewn cyrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol i sicrhau bod modd cyflawni dyheadau gwella bioamrywiaeth.

- Cyflwyno **gofyniad gorfodol ar gyfer seilwaith gwyrdd** a chefnogi'r gofyniad am **fanteision net i fioamrywiaeth** cyn belled ag y bo modd mewn datblygiadau newydd[1.]

- Ymrwymiad i **ddiffinio pellach a darparu canllawiau clir ar sut gall datblygiadau fodloni'r pum mesur o gadernid ecosystemau** yn Neddf Amgylchedd Cymru 2016 i alluogi awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniadau ynghylch a yw datblygiadau'n bodloni'r meini prawf hyn.

- Sefydlu dull o **asesu cadernid ecosystemau** sy'n dryloyw i bawb sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd, ac sy'n addas ar gyfer monitro yn y tymor hir.

- **Parhau â'r momentwm ar gyfer gwella ansawdd aer** sydd wedi'i ddatgan yn y Cynllun Aer Glân2 drwy gefnogi Deddf Aer Glân i Gymru gyda thargedau llym ar gyfer deunydd gronynnol, nitrogen ac amonia.

- **Cynnal asesiadau effaith o bob buddsoddiad adfer wedi COVID-19** er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau ar y trywydd iawn o ran uchelgeisiau i wella ac adfer yr amgylchedd naturiol.

1. https://llyw.cymru/gwelliannau-bioamrywiaeth-canllawiau-ar-gyfer-penaethiaid-cynllunio
2. https://llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru-awyr-iach-cymru-iach

CIEEM Chartered Institute of Ecology and Environmental Management

Chartered Institute of Ecology and Environmental Management
43 Southgate Street, Winchester, Hampshire SO23 9EH
01962 868626 | enquiries@cieem.net | www.cieem.net